

Swyddi gwag Arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Canllawiau Recriwtio

Mae'r ddogfen hon yn ategol i *Ganllawiau Recriwtio Ymgeiswyr Allanol Llywodraeth Cymru, Pecyn Recriwtio Ymgeiswyr AGC a Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil*. Nod y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth am agweddau ar y broses recriwtio, sy'n wahanol wrth wneud cais ar gyfer rôl Arolygydd.

Y Broses Recriwtio

Fel rhan o'r broses recriwtio, gofynnir i chi ddarparu'r canlynol:

- **Ffurflen gais** wedi ei chwblhau ar-lein **a**
- **CV cyfredol** yn nodi eich hanes gyrfaol gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol **a**
- **Thystiolaeth yn erbyn y pedwar ymddygiad cymhwysedd a'r tri maen prawf penodol i'r swydd** fel y nodir yn y disgrifiad swydd. Gellir cyflwyno hyd at 300 o eiriau ar gyfer pob maes. I'w lanlwytho fel un ddogfen.

Ar gyfer swyddi sy'n gofyn am **sgiliau Cymraeg**, cynhelir y broses ddiidoli a chyfweld drwy gyfrwng eich dewis iaith.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth ar gyfer o leiaf ddau o'r cwestiynau o'r cymhwysedd neu'r meini prawf sy'n benodol i'r swydd yn yr iaith arall. Er enghraifft, os yw'r cais yn cael ei gyflwyno yn Saesneg, dylid ysgrifennu o leiaf ddwy o'r enghreifftiau yn Gymraeg. Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg, dylid ysgrifennu o leiaf ddwy o'r enghreifftiau yn Saesneg.

Caiff ceisiadau ar gyfer rôl Arolygydd eu hasesu yn erbyn y cymwyseddau a'r meini prawf penodol i'r swydd a restrir yn yr hysbyseb swydd. Yn ystod y broses recriwtio, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth (ar ffurf enghreifftiau go iawn) i ddangos sut y maent yn bodloni'r rhain.

Cymhwyseddau

Cymhwyseddau yw'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau sy'n arwain at berfformiad llwyddiannus. Mae Fframwaith Cymhwyseddau'r Gwasanaeth Sifil yn amlinellu deg cymhwysedd (o dan dri maes neu 'glwstwr' allweddol) yr ystyrir eu bod yn allweddol i berfformiad llwyddiannus yn y Gwasanaeth Sifil. Ceir disgrifiad o'r hyn y mae pob cymhwysedd yn ei olygu yn ymarferol, a rhai enghreifftiau o ymddygiadau effeithiol ac aneffeithiol ar bob lefel.

Caiff y pedwar ymddygiad cymhwysedd allweddol y nodwyd eu bod yn hanfodol ar gyfer rôl Arolygydd eu rhestru yn yr hysbyseb swydd. Yn ystod y broses recriwtio, bydd angen i chi ddangos sut rydych yn bodloni'r rhain (gan roi enghreifftiau go iawn). Caiff y dystiolaeth am gymhwyseddau ei defnyddio i feincnodi'r ffordd rydych wedi ymddwyn yn y gorffennol, am fod hyn yn debygol o fod yn arwydd da o'r ffordd y byddwch yn perfformio yn y dyfodol.

Meini Prawf Penodol i'r Swydd

Caiff meini prawf penodol i'r swydd eu nodi gan y rheolwr llinell sy'n recriwtio fel rhai hanfodol i'r rôl benodol y mae'n recriwtio ar ei chyfer. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr fodloni tri maen prawf penodol i'r swydd er mwyn symud ymlaen yn y broses recriwtio.

Gwneud cais ar gyfer y rôl

Mae'r broses ddethol ar gyfer rôl Arolygydd yn cynnwys y ddau gam canlynol:

Cam 1 – Llunio rhestr fer yn seiliedig ar ymatebion ysgrifenedig i'r pedwar maes cymhwysedd a'r tri maen prawf penodol i'r swydd. Os daw nifer mawr o geisiadau i law, efallai mai dim ond yn seiliedig ar eich ymatebion i'r tri maen prawf penodol i'r swydd y bydd y panel yn llunio'r rhestr fer. Noder: bydd **dal angen** i chi ddarparu ymateb ysgrifenedig mewn perthynas â'r pedwar cymhwysedd er mwyn pasio'r cam rhestr fer yn llwyddiannus.

Eich ymatebion i'r cwestiynau ysgrifenedig yw'r rhan bwysicaf o'ch cais. Yn eich ymatebion, rhaid i chi ddarparu enghreifftiau go iawn o'ch ymarfer blaenorol. Bydd y panel yn ystyried pa mor dda y mae'r dystiolaeth rydych wedi'i darparu yn dangos eich bod yn bodloni gofynion y rôl. Efallai y bydd y model STAR, a nodir yn *Atodiad A y Canllawiau Recriwtio Ymgeiswyr Allanol* yn eich helpu i gyflwyno eich dystiolaeth.

Caiff ymgeiswyr sydd wedi dangos digon o dystiolaeth eu bod yn bodloni holl ofynion y rôl eu gwahodd am gyfweiliad.

Cam 2 – Cyfweiliad o flaen panel ar y cymwyseddau a'r meini prawf penodol i'r swydd, gan gynnwys cyflwyniad neu asesiad ar y diwrnod.

Diben y cyfweiliad yw:

- Profi eich bod yn addas ar gyfer gofynion y rôl
- Rhoi cyfle i bob ymgeisydd fynegi ei farn a chyflwyno ei dystiolaeth
- Sgorio ymgeiswyr yn seiliedig ar y gofynion a nodwyd ar gyfer y rôl
- Argymhell pa ymgeisydd ddylai gael cynnig y swydd a llunio trefn teilyngdod yn seiliedig ar sgorau a enillwyd a lleoliad daearyddol.
- Eich helpu i benderfynu a yw'r rôl yn addas i chi.

Yn ystod y cyfweiliad, bydd y Panel yn ceisio canfod sut rydych yn bodloni'r ymddygiadau cymhwysedd a'r meini prawf penodol i'r swydd a nodwyd ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi fod yn barod i roi atebion gan ddangos sut rydych yn bodloni'r rhain. Bydd y cyfweiliad yn gyfle i'r panel recriwtio gadarnhau, cwestiynu neu ymchwilio ymhellach i'r dystiolaeth a roddwyd yn eich cais.

Y Panel

Yn ystod y cyfweiliad, bydd y panel recriwtio yn cynnwys tri aelod o staff Llywodraeth Cymru: y Cadeirydd, y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau bod y broses yn cydymffurfio â chanllawiau cystadleuaeth agored a theg (cynrychiolydd o adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru fydd hwn); a dau aelod arall o'r panel (sef dau aelod o staff AGC).

Bydd aelodau'r panel yn gobeithio eich gweld chi ar eich gorau yn ystod y cyfweiliad a byddant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i roi'r cyfle i chi ddangos eich bod yn bodloni'r meini prawf. Ni fyddant yn ceisio eich twyllo. Ar adeg eich gweld, byddant eisoes wedi gweld y nodweddion sydd gennych yn eich ffurflen gais. Bydd y panel am gwblhau'r darlun o'r hyn y gallwch ei wneud drwy ddysgu mwy amdanoch mewn sefyllfa wyneb yn wyneb (rhithwir).

Y cyfweiliad

Caiff y broses gyfweled ar gyfer Arolygwyr ei rhannu'n dwy rhan:

1. Paratoi ar gyfer Cyflwyniad neu Asesiad

– Anfonir neges e-bost atoch yn cynnwys manylion pwnc y cyflwyniad neu'r asesiad o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfweiliad.

2. Cyfweiliad (rhithwir trwy Microsoft Teams)

1. Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno aelodau eraill o'r panel, yn egluro fformat y cyfweiliad ac yn amlinellu amseriad y cyfweiliad (a fydd yr un peth i bob ymgeisydd). Byddwch yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am fformat y cyfweiliad.
2. Gofynnir i chi hefyd p'un a oes unrhyw amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar eich perfformiad mewn cyfweiliad h.y. profedigaeth ddiweddar, damwain car ac ati. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth a allai amharu ar eich perfformiad. Os bydd rhywbeth wedi digwydd, cewch gyfle i aildrefnu eich cyfweiliad. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis bwrw ymlaen â'r cyfweiliad, ni fyddwch yn gallu aildrefnu ar gyfer amser arall os byddwch yn teimlo ar ôl hynny na wnaethoch berfformio ar eich gorau.
3. Bydd y panel cyfweld yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw ymgeisydd anabl sydd wedi nodi gofynion penodol ar ei ffurflen gais mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y broses gyfweld. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw ofynion penodol a allai fod gennych yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl – mae adran yn y ffurflen gais i nodi'r rhain.
4. Yn dilyn y cyflwyniadau, byddwch yn rhoi eich cyflwyniad i'r panel a gaiff ei farcio yn erbyn un o'r meini prawf penodol i'r swydd. Caiff y cyflwyniad ei amseru a gofynnir i chi stopio os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r terfyn amser penodedig.

Yna, bydd pob aelod o'r panel yn cymryd ei dro i ofyn cwestiynau.

5. Nod y cwestiynau yn y cyfweiliad fydd eich galluogi i roi tystiolaeth o'r ymddygiadau gofynnol a'r meini prawf penodol i'r swydd, fel y nodir yn yr hysbyseb swydd, drwy ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o'ch profiad. Cofiwch, er y bydd y panel yn chwilio am dystiolaeth o'r ymddygiadau/meini prawf penodol i'r swydd, bydd angen i chi hefyd sicrhau eich bod yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd i chi. Felly, mae'n bwysig eich bod yn cofio gwrando ar y cwestiwn cyn dewis yr enghraifft fwyaf priodol a fydd yn eich galluogi i ddangos

tystiolaeth o'r ymddygiadau/meini prawf penodol i'r swydd, ac ateb y cwestiwn yn llawn.

6. Ar ddiwedd y cyfweiliad, bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau a all fod gennych am y swydd.

Y Broses Ddethol

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael rôl fel y nodir yn yr hysbyseb swydd yn seiliedig ar eu sgiliau, eu profiadau a'u lleoliad daearyddol. Caiff yr ymgeiswyr eu penodi yn ôl teilyngdod, ac eithrio achosion lle nad yw eu sgiliau a'u lleoliad daearyddol yn cyd-fynd â'r swyddi sydd ar gael. Yn yr achosion hyn, caiff yr ymgeisydd â'r sgôr uchaf nesaf ac sy'n bodloni gofynion y swydd ei benodi.

Cedwir rhestr wrth gefn o ymgeiswyr y gellir eu penodi i rôl Arolygydd o fewn 12 mis i'r cynnig cychwynnol os bydd swydd addas, sy'n cyd-fynd â'u sgiliau a'u lleoliad, yn codi. Unwaith eto, cynigir swyddi yn ôl teilyngdod i'r ymgeiswyr ar y rhestr wrth gefn, ac eithrio achosion lle nad yw eu sgiliau a'u lleoliad daearyddol yn cyd-fynd â'r swyddi sydd ar gael. Yn yr achosion hyn, caiff yr ymgeisydd â'r sgôr uchaf nesaf ac sy'n bodloni gofynion y swydd ei benodi.